COFNODION ALLANOL

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**
**Cyfarfod y Cabinet Rhanbarthol**

9.30am-11.30am ddydd Llun 20 Medi 2021
Cyfarfod o Bell yn defnyddio Microsoft Teams

## Cofnodion

**Arweinwyr a Phrif Weithredwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Nigel Daniels | Arweinydd | CBS Blaenau Gwent |
| Michelle Morris | Rheolwr Gyfarwyddwr | CBS Blaenau Gwent |
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd | CBS Pen-y-bont ar Ogwr |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr | CBS Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cynghorydd Philippa Marsden (Is-gadeirydd) | Arweinydd | CBS Caerffili |
| Y Cynghorydd Huw Thomas (Is-gadeirydd) | Arweinydd | Cyngor Caerdydd |
| Paul Orders (tan 10:46) | Prif Weithredwr | Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Lisa Mytton | Arweinydd | CBS Merthyr Tudful |
| Ellis Cooper | Prif Weithredwr | CBS Merthyr Tudful |
| Y Cynghorydd Richard John (Is-gadeirydd) | Arweinydd | Cyngor Sir Fynwy |
| Paul Matthews | Prif Weithredwr | Cyngor Sir Fynwy |
| Y Cynghorydd Jane Mudd (o 09:48) | Arweinydd | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Beverly Owen | Prif Weithredwr | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Y Cynghorydd Andrew Morgan | Arweinydd | CBS Rhondda Cynon Taf |
| Chris Bradshaw | Prif Weithredwr | CBS Rhondda Cynon Taf |
| Y Cynghorydd Anthony Hunt (Cadeirydd) | Arweinydd | CBS Torfaen |
| Stephen Vickers | Prif Weithredwr | CBS Torfaen |
| Y Cynghorydd Neil Moore | Arweinydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Y Cynghorydd Lis Burnett | Dirprwy Arweinydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| Rob Thomas | Prif Weithredwr | Cyngor Bro Morgannwg |

**Swyddogion**

| | | |
|---|---|---|
| Christopher Lee | Y Swyddog Adran 151 | Corff Atebol |
| Anil Hirani | Rheolwr Cyfrifeg | Corff Atebol |
| Gareth Gates | Cyfrifydd | Corff Atebol |
| Lindsey Yeoman | Cyfrifydd | Corff Atebol |
| James Williams | Cyfreithiwr | Corff Atebol |
| Chloe Williams | Cyfreithiwr | Corff Atebol |
| Kellie Beirne | Cyfarwyddwr | Swyddfa P-RC |
| Rhys Thomas | Prif Swyddog Gweithredol | Swyddfa P-RC |
| Nicola Somerville | Pennaeth Twf Cynhwysol a Datblygu Busnes | Swyddfa P-RC |
| Hrjinder Singh | Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd | Swyddfa P-RC |

| | | |
|---|---|---|
| Colan Mehaffey | Pennaeth Arloesedd a Chlystyrau | Swyddfa P-RC |
| Suzanne Chesterton | Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu | Swyddfa P-RC |
| Robert O'Dwyer | Pennaeth Seilwaith | Swyddfa P-RC |
| Nathan Llewellyn | Swyddog Marchnata a Chyfathrebu | Swyddfa P-RC |
| Alison Merrifield | Swyddog Project | Swyddfa P-RC |
| Nicola Butler | Swyddog Datblygu Busnes a Phartneriaethau | Swyddfa P-RC |
| Liz Fitzgerald (cofnodion) | Swyddog Datblygu Busnes a Phartneriaethau | Swyddfa P-RC |

**Arsylwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Sara-Jane Byrne | Rheolwr Archwilio | Archwilio Cymru |
| Gareth Ashman (o 09:56) | Pennaeth Seilwaith | Llywodraeth y DU |
| Claire Jenkins | Tîm De-ddwyrain Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Jenna Dillon | Uwch-reolwr Cyflawni Prosiectau - De-ddwyrain Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Christian Hanagan | Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | CBS Rhondda Cynon Taf |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Christina Harrhy | Prif Weithredwr | CBS Caerffili |

Dechreuwyd recordio'r cyfarfod cyhoeddus am 09:30

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cynghorydd Hunt y cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

**2. Datgan Buddiannau**

Derbyniwyd datganiadau buddiannau gan:

a) Michelle Morris mewn cysylltiad ag Eitem 8 am ei bod yn aelod o fwrdd y Panel Buddsoddi;

b) Paul Orders mewn cysylltiad ag Eitem 8 (d) Media Cymru oherwydd ei rôl ar Fwrdd Llywio Clwster ac felly'n ymwybodol o gais SIPF ar gyfer Media Cymru. Cadarnhaodd y byddai'n gadael y cyfarfod cyn y drafodaeth;

c) Kellie Beirne mewn cysylltiad ag Eitem 8 (d) Media Cymru ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â cheisiadau SIPF am ei bod yn aelod o Fwrdd Cyngor Ymchwil Lloegr UKRI.

**3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2021**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2021 yn gofnod gwir a chywir fel y'u cynigiwyd gan y Cynghorydd Marsden.

**4. Sefyllfa Monitro Cyllideb Refeniw y Cydbwyllgor Mis 5 2021/22**

Cyflwynodd Christopher yr adroddiad.

Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; a Thorfaen.

Nid oedd y Cynghorydd Mudd yn bresennol i bleidleisio dros Gasnewydd.

Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn nodi'r gwir wariant, incwm a'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar 31 Awst 2021 (Mis 05) yn erbyn ei Gyllideb Refeniw gymeradwy ar gyfer 2021/22.

**5. Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 Cynllun Busnes Blynyddol 2021/22**

*Mae Atodiad 4 o'r adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi oherwydd ei fod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.*

Cyflwynodd Kellie adroddiad Chwarter 1 yn erbyn Cynllun Busnes 2021-22. Byddai Kellie yn cyflwyno adroddiad yng Nghyfarfod Briffio nesaf y Cabinet Rhanbarthol i hwyluso trafodaeth lawnach.

Cynigiwyd y cynnig i ymdrin ag argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Morgan a'i eilio gan y Cynghorydd Marsden.

Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; a Thorfaen.

Nid oedd y Cynghorydd Mudd yn bresennol i bleidleisio dros Gasnewydd.

Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn nodi'r cynnydd cyffredinol yn Chwarter 1 2021/22 gan gynnwys sefyllfa'r gyllideb a adroddir yn Atodiad 2;

(2) cymeradwyo adroddiad perfformiad Chwarter 1 ac awdurdodi Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth ategol i lywodraethau'r DU a Chymru, ac i randdeiliaid eraill yn ôl yr angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol;

(3) yn nodi Adroddiad Monitro Rhaglenni Chwarter 1 yn Atodiad 3, sy'n gosod y dull gwell o ymdrin ag adroddiadau prif bwyntiau a'r gwaith monitro rhaglenni cynhwysfawr cyffredinol ar y swp cyntaf o brosiectau cyflawni.

**6. Sefydlu Cydbwyllgor Corfforoaethol – Opsiwn Llywodraethu a Darparu a Ffefrir a Model Pontio**

*Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r fath a ddisgrifir ym mharagraff 16 (gwybodaeth y gellid cynnal braint broffesiynol gyfreithiol mewn perthynas â hi mewn achosion cyfreithiol) rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972*

Cyflwynodd Kellie yr adroddiad.

Ymunodd y Cynghorydd Mudd â'r cyfarfod am 09:48.

Cadarnhaodd Kellie y byddai aelodaeth o'r Bwrdd Pontio yn agored i holl Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol.

Ymunodd Gareth Ashman â'r cyfarfod am 09:56

Dywedodd Kellie y byddai'r Cytundeb Cydweithio (CC) presennol yn dod i ben a byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Arweinwyr i gyd-fynd â thelerau'r rheolau sefydlog newydd a'r cynllun busnes. Nid oedd unrhyw ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol gymryd yr adroddiad drwy eu cynghorau ond argymhellwyd yn gryf y dylai hyn ddigwydd er mwyn helpu i barhau i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

Trafododd yr arweinwyr yr eitem:

(1) roedd rhaid i drafodaeth nawr ymwneud â swyddogaethau yn hytrach na phwerau, ac edrych ymlaen at sicrhau ymrwymiadau cadarn gan Lywodraeth Cymru i drosglwyddo swyddogaeth i'r rhanbarth ei defnyddio; ar hyn o bryd, nid oedd un 'drws ffrynt' i fuddsoddi ar gyfer cwmnïau sy'n bwriadu buddsoddi;
(2) awdurdodau lleol sy'n sofran;
(3) roedd yr adroddiad yn dangos lefel o aeddfedrwydd; Roedd arweinwyr yn atebol i'w hawdurdodau lleol eu hunain ond nododd yr adroddiad feysydd lle gallai awdurdodau lleol gyflawni màs critigol ac roedd y gallu i weithio ar draws y pleidiau a'r ddwy lywodraeth yn bwysig;
(4) Oherwydd yr amgylchiadau presennol sy'n deillio o'r pandemig, roedd rhai cynghorwyr nad oedd yn ymgysylltu â'r agenda ranbarthol; roedd cyfrifoldeb ar Arweinwyr i sicrhau eu bod yn cynnwys eu holl gynghorwyr yn y gwaith;
(5) roedd yn bwysig i awdurdodau lleol gadw rheolaeth; wrth sôn am raglenni ychwanegol ac adfywio byddai angen i arweinwyr sicrhau bod y cyngor cyfan yn cymryd rhan; byddai hyn yn hollbwysig.

Cynigiwyd y cynnig i ymdrin ag argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Marsden a'i eilio gan y Cynghorydd Morgan.

Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful; Blaenau Gwent; Casnewydd, Sir Fynwy; a Thorfaen.

Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn cymeradwyo ac ardystio sefydlu Opsiwn 3 fel y model 'codi a symud' a

ffefrir ar gyfer trosglwyddo Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r CBC ac yn nodi'r egwyddorion craidd a'r rheolau ymgysylltu sy'n sail iddo;

(2) yn cydnabod y bydd y CBC yn esblygu fesul prosiect a bydd ganddo'r awdurdod i sefydlu cerbyd(au) cyflenwi is-gwmnïau lle mae achos cymhellol i wneud hynny (fel y'i cymeradwywyd gan y CBC ar yr adeg berthnasol);

(3) yn cydnabod y bydd y CBC yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r rheolau sefydlog, i adlewyrchu telerau'r CC a'r darpariaethau a nodir uchod;

(4) yn cydnabod y bydd y CC yn dod i ben ac nad yw'n cael unrhyw effaith bellach o'r dyddiad y mae'r CBC yn mabwysiadu'r rheolau sefydlog (fel yr esboniwyd uchod);

(5) yn cymeradwyo cwmpas arfaethedig y swyddogaethau ar gyfer y CBC a nodir uchod a chydnabod y bydd y rhain, yn ogystal â'r 'Dyletswyddau Uniongyrchol' a gadarnhawyd, yn destun trafodaethau ac wedi'u sefydlu'n raddol;

(6) yn cymeradwyo'r Cynllun Pontio a dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, i weithredu'r materion o fewn Cynllun Pontio o'r fath;

(7) yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pontio, a chymeradwyo ei sefydlu;

(8) yn cytuno ar y cyfraniad ariannol o £500k ar gyfer y Cynllun Pontio a'r broses, gyda 50% wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru a 50% o adnoddau P-RC i'w hariannu drwy gyfraniadau ariannol a staffio;

(9) yn gofyn i'r Cynghorau nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r penderfyniadau a wnaed o hyn ymlaen i weithredu'r CBC; a

(10) cyflwyno adroddiad yn y dyfodol – i'w arwain gan y Prif Weithredwyr perthnasol a Chadeirydd Bwrdd y Rhaglen ar yr holl oblygiadau Adnoddau Dynol a TUPE.

## 7. Adroddiad Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) a Diweddariad cynnydd

Cyflwynodd Kellie yr adroddiad. Roedd y prosiect yn mynd law yn llaw â'r rhaglen Metro Plus a'r gwaith sydd eisoes ar y gweill yng nghymunedau'r rhanbarth o amgylch y cynllun profi cyn prynu tacsis. Diolchodd Kellie i'r Cynghorydd Mytton a CBS Merthyr Tudful am eu gwaith a'u cefnogaeth ar y prosiect. Y prosiect oedd y buddsoddiad mwyaf ar draws y rhanbarth a diolchodd y Cynghorydd David hefyd i gydweithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Cafodd y cynnig i ddelio ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd David a'i eilio gan y Cynghorydd Marsden.

Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Blaenau Gwent; Casnewydd, Sir Fynwy; a Thorfaen.

Nid oedd y Cynghorydd Mytton yn bresennol i bleidleisio dros Ferthyr Tudful.

Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn cymeradwyo ac ardystio'r Strategaeth ULEV ddrafft i alluogi gwneud cynnydd pellach o ran cyflawni'r Rhaglen ULEV i helpu i bontio i sero net;

(2) yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y prosiect i ddarparu seilwaith ULEV er mwyn helpu i gyflawni'r Trawsnewid ULEV fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Rhoddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod am 10:22.

## EITEM EITHRIEDIG

*Mae'r adroddiad a'r holl atodiadau isod, a'r drafodaeth, wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.*

**8. Adroddiad y Panel Buddsoddi: Argymhellion, Cofnodion a'r Diweddaraf ar Brosiectau**

a) Sifft 1a
Cyflwynodd Rhys yr eitem.

b) Cronfa Buddsoddi Mewn Arloesedd ABA
Cyflwynodd Rhys yr eitem.

c) Caffael Gorsaf Bŵer Aberddawan - Prynu ac Adfer (Cam 1)
Cyflwynodd Rhys yr eitem.

Gadawodd Paul Orders y cyfarfod am 10:46

d) Media Cymru
Cyflwynodd Rhys yr eitem.

Cynigiwyd y cynnig i ymdrin ag argymhellion yr adroddiad eithriedig gan y Cynghorydd Marsden a'i eilio gan y Cynghorydd Hunt.

Penderfynwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn derbyn argymhellion yr adroddiad eithriedig.